



Cynllun **Gwirfoddolwyr**
Volunteer Scheme

Disgrifiad Rôl y Gwirfoddolwr **Gyrrwr Cefnogol Diogelwch Cymunedol**

Prif Bwrpas y Swydd

Mae Adran Diogelwch Cymunedol a Phartneriaethau Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru'n cyflenwi amryfal fentrau a phrosiectau o fewn y gymuned syn gofyn am ddefnydd cerbydau'r gwasanaeth. Rydym yn chwilio am wirfoddolwyr addas i gludo cerbydau cefnogol amrywiol i ddigwyddiadau cymunedol ac yn ôl. Gosod a lleoli'r cerbydau mewn amryw ddigwyddiadau a chynorthwyo wrth ddarparu negeseuon diogelwch allweddol ynghyd â'n timau cyfredol.

Defnyddir y cerbydau cyfredol dilynol:

- 'Car Criwsio' Diogelwch ar y Ffyrdd
- Car 'Damwain' Diogelwch ar y Ffyrdd
- Peiriant Cadetiaid Ymladd Tân
- Bws mini ac ôl gerbyd
- Fan Amlbwrpas Diogelwch Cymunedol

Ar gyfer y rôl hon, mae'n **RHAID** i wirfoddolwyr fod dros 18 oed

Prif Ddyletswyddau a Chyfrifoldebau

- I gludo cerbydau'r gwasanaeth tân i ddigwyddiadau ar hyd ardal GTADC ac yn ôl.
- Ail-lenwi tanwydd mewn cerbydau yn ôl y galw a'r angen.
- Lleoli a gosod cerbydau yn ôl y gofyn.
- I gefnogi darpariaeth mentrau a digwyddiadau diogelwch cymunedol ar draws ardal GTADC.
- I ufuddhau i bolisiau a gweithdrefnau a ddarperir gan wasanaeth Tân ac Achub De Cymru ar bob adeg.
- I ymgymryd â hyfforddiant a chyflawni'r safonau gofynnol.
- I fynychu sesiynau gwybodaeth, hyfforddi ac adolygu grwpiau gwirfoddol cymeradwy.
- Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru'n ymroddedig i ddiogelu a hyrwyddo llesiant plant ac oedolion bregus, a disgwylia i bob gwirfoddolwyr rannu'r ymrwymiad hwn.



Sgiliau, Profiad a'r Gallu Gofynnol

- Car Criwsio Trwydded Yrru Lawn Glân y DU
 - Fan Amlbwrpas Diogelwch Cymunedol Trwydded Yrru Lawn Glân y DU
 - Car Damwain Trwydded Yrru Lawn Glân y DU gyda chymhwyster Categori B ac E
 - Peiriant Cadetiaid Tân Trwydded Yrru Lawn Glân y DU gyda chymhwyster Categori C
 - Bws Mini Trwydded Yrru Lawn Glân y DU gyda chymhwyster Categori D1 (Nid 101 cyn 1997)
- Sgiliau rhyngpersonol da
 - Dull cyfeillgar, hyderus ac agos atoch
 - Dibynadwy, cyfrifol a dibynadwy
 - Y gallu i weithio o fewn tîm a dilyn cyfarwyddyd
 - Sgiliau ysgrifenedig a llafar da
 - Awydd i weithio fel rhan o dîm ac ufuddhau i weithdrefnau a phrosesau penodedig
 - Profiad blaenorol o weithio neu wirfoddoli mewn rôl sy'n ymwneud â'r cyhoedd yn ddymunol
 - Mae'r gallu i siarad Cymraeg neu ieithoedd ychwanegol yn ddymunol

Hyfforddiant a Chefnogaeth

- Bydd gofyn i bob gyrrwr ymgymryd â chwrs derbyn hanner dydd neu ddiwrnod cyfan gyda Hyfforddwyr Gyrru GTADC ar ddechrau cyflogaeth (yn ddibynnol ar y math o gerbyd)
- Cynhelir cyfnod anwytho cyflawn i'ch helpu i ddeall beth mae GTADC yn gwneud, sut yr ydym yn ei wneud a sut mae eich rôl yn cefnogi darpariaeth diogelwch cymunedol.
- Darperir hyfforddiant ymwybyddiaeth llawn i'ch galluogi i ymgymryd â'r rôl hon yn effeithiol.
- Lle bo'n bosib, yn gychwynnol, bydd gwirfoddolwyr yn gweithio â staff Diogelwch Cymunedol
- Bydd pob gwirfoddolwr yn ymgymryd â'r gwiriadau angenrheidiol ar y lefel briodol ar gyfer eu dyletswyddau
- Darperir adborth a chefnogaeth reolaidd

Lleoliad y rôl

Lleoliadau amrywiol ar draws Ardal Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru sy'n cwmpasu 10 Awdurdod Unedol

Oriau ac Ymroddiad

Mae oriau'n hyblyg a gall fod yn ddibynnol ar ddyddiadau ac amseroedd mentrau a digwyddiadau. Lleiafswm awgrymedig o 4 awr y mis

Treuliau

Ad-delir treuliau allan o boced a theithio fel y cytunwyd ar gychwyn

Gofynion Gwisg

Darperir gwisg ac adnabyddiaeth i'ch galluogi i ymgymryd â'ch rôl

Yn gyfrifol i'r

Y mentor Diogelwch Cymunedol arweiniol wrth ymgymryd â gweithgareddau. Goruchwyliwyd gan y Rheolwr Ieuenctid a Gwirfoddoli